**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**Dyddiad:** Dydd Iau 22 Mehefin 2000
**Amser:** 9:15 am – 12:30 pm
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU (CCGC) – CYNLLUN CORFFORAETHOL 2001-04**

**Papur gan Brif Weithredwr y Cyngor**

Pwrpas

**1. Cyflwyno Cynllun Corfforaethol CCGC am 2001-04 i'w ystyried gan y Pwyllgor.** Dylid ystyried hwn yn erbyn cefndir papur comisiynu'r Ysgrifennydd Ariannol ar gyfer Rownd Cynllunio Cyllideb 2000 (EPT-03-00 (P2))

Argymhelliad

**2. Bod y Pwyllgor yn cymryd sylw o'r cyfraniad y bydd gwaith CCGC yn ei wneud i Strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol, "Cymru Well", ac yn cymeradwyo Cynllun Corfforaethol CCGC sydd yn Atodiad ynghlwm wrth y papur hwn.**

Cefndir

3. Mae CCGC yn cyflawni dwy swyddogaeth ar gyfer y Cynulliad:

i. Ni yw ei gynghorwyr annibynnol ynghylch materion cefn gwlad a bywyd gwyllt, ac mae gennym gyfrifoldebau statudol am gadwraeth bywyd gwyllt ar y tir ac ar y môr, am gadwraeth y tirwedd ac am hyrwyddo mwynhad yng nghefn gwlad a chael pobl i ddeall cefn gwlad

ii. Ni yw asiantau'r Cynulliad mewn perthynas â gweinyddu cynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal. Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygiad Gwledig fydd yn gwneud arhymhellion yngl n â darpariaeth gyllidol y dyfodol ar gyfer Tir Gofal, ond mae'r Cynllun Corfforaethol yn cydnabod y rhan bwysig y mae'r cynllun yn ei chwarae i wella ansawdd bywyd ac amcanion economaidd Cymru Well.

4. Mae CCGC yn sefydliad sy'n gweithio gyda'i olwg ar dargedau. Yr ydym wedi gosod targedau yn ein Cynlluniau Corfforaethol cyhoeddedig ers 4 blynedd ac wedi rhoi adroddiad

am y canlyniadau yn ein Hadroddiadau Blynyddol. Mae'r targedau a gynigir yn y cynllun hwn yn cael eu hegluro yn Atodiad 2.

5. Yr hyn sy'n sylfaen i'r Cynllun Corfforaethol yw:

Adroddiadau am Gyflwr yr Amgylchedd a gyflwynwyd i'r Cynulliad gan Asiantaeth yr Amgylchedd, y Comisiwn Coedwigaeth a Chyngor Cefn Gwlad Cymru ym Mehefin 1999. Yr oedd y rhain yn cydnabod ansawdd uchel gweladwy amgylchedd Cymru sy'n sylfaen i'r diwydiant twristiaeth gwerth £2 biliwn sydd gennym. Fodd bynnag, yr oedd yr adroddiadau'n cyfeirio at nifer o feysydd a barai gryn bryder, rhai a gynhwysai, er enghraifft, y dirywiad cyson mewn 8 allan o 13 o gynefinoedd pwysig sydd yng Nghymru, ac mewn o leiaf 25 o rywogaethau o adar tir amaeth, dros y 30 mlynedd diwethaf.

Gwaith a wnaed gan CCGC y llynedd i egluro ei weledigaeth am y modd y byddai dros y 10 mlynedd nesaf, drwy weithio mewn partneriaeth, yn medru cyflawni gwelliant sylweddol yn ein hamgylchedd naturiol, ac felly yn ansawdd bywyd pobl Cymru ac yn ansawdd y profiad a gaiff pobl a fydd yn ymweld â Chymru.

<u>Ansawdd Bywyd Gwell</u>

6. Drwy ddefnyddio'r £1.8m o gyllid ychwanegol a roddwyd gan y Cynulliad ym mis Mawrth eleni, byddwn yn trefnu i roi gwarchodaeth i bob un bron o'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a fydd yn ffurfio rhan o raglen Natura 2000 yr Undeb Ewropeaidd, ar gyfer diogelu'r cynefinoedd mwyaf bregus yn yr Undeb. Bydd angen £0.25m ychwanegol y flwyddyn nesaf i gwblhau'r broses honno.

7. Bydd angen parhau i weithredu wedyn i fonitro a rheoli'r Ardaloedd hyn a fydd yn cynnwys 60% o'n dyfroedd arfordirol. Bydd y gost am hynny yn £1.5m y flwyddyn nesaf. Y mae'r Cynulliad eisoes – yng nghyd-destun Dogfen Rhaglen Sengl Amcan 1 – wedi ymrwymo i ddiogelu ACAau, ac mae'r UE wedi dweud yn bendant ei fod yn disgwyl i bob gwlad yn y DG roi blaenoriaeth uchel i'r gwaith yma.

8. Bydd darpariaethau bywyd gwyllt y Mesur Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn rhoi hwb sylweddol i allu CCGC i ddiogelu'r 1000 o Safleoedd o Ddiddordeb Arbennig (SoDdGA) sydd yng Nghymru. Bydd y gost o roi darpariaethau'r Mesur ar waith a datgan, monitro a rheoli'r SoDdGAau (nid y rhai sy'n rhan o'r ACAau) o gwmpas £1m y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, bydd y gwariant hwn yn helpu i ddelio â'r ôl-groniad sy'n bodoli yn y datganiadau o SoDdGA (erbyn 2005) a'u rheolaeth (dyblu'r nifer o hectarau'r SoDdGa a fydd o dan reolaeth i fod yn 14,000).

9. Caiff cyfran bwysig o'n gwaith ei wneud gan awdurdodau lleol a mudiadau gwirfoddol. Y mae'r awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldebau am Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

(AHNE) yn wynebu pwysau neilltuol wrth fonitro ansoddau tirwedd yr ardaloedd, ac maent yn haeddu cefnogaeth ychwanegol. Bydd llawer o awdurdodau lleol a mudiadau gwirfoddol hefyd yn ceisio cael Cyllid Strwythurol yr UE ar gyfer cynlluniau rheoli cefn gwlad, ac fe hoffai CCGC fod mewn sefyllfa i roi mwy o gymhorthdal grant iddynt i gefnogi'r cynlluniau hyn (a fyddai, fel arall, efallai'n methu â chael cyllid cyfatebol). Gwneir bidiau am adnoddau ychwanegol ar gyfer y ddau bwrpas yma.

10. Yr ydym ar hyn o bryd wrthi'n gweithio ar oddeutu 50% o'r 222 o Gynlluniau Gweithredu Cynefinoedd a Rhywogaethau a fydd yn diogelu'r nifer o hectarau sydd gan ein bywyd gwyllt, fel rhan o ymateb y DG i Uwchgynhadledd Y Ddaear yn Rio. Gallwn ddisgwyl i 2002 symbylu adolygiad rhyngwladol am y modd y mae'r gwledydd wedi ymateb i Uwchgynhadledd y Ddaear. Os yw Cymru i chwarae ei rhan, mae'n rhaid inni ddechrau ar ein gwaith gyda'r 50% o'r Cynlluniau sydd ar ôl. Y gost y flwyddyn nesaf, ac ar gyfer cefnogi gwaith gr p cydgysylltiol y Cynulliad, sef Gr p Bioamrywiaeth Cymru, fydd ychydig o dan £1m.

<u>Iechyd a Lles Gwell</u>

11. Gall ymarfer yng nghefn gwlad ac yn y llecynnau gwyrdd sydd yn ein hardaloedd trefol chwarae rhan bwysig i wella ein hiechyd. Yr ydym yn symud ein cefnogaeth o gymhorthdal grant Hawliau Tramwy i gynlluniau am welliant a fydd â chyswllt â chludiant cyhoeddus ac sy'n rhoi mwy o gyfleoedd ar gyfer cerdded/seiclo i'r mwyafrif o bobl. Ym mis Gorffennaf byddwn yn lansio menter 5 mlynedd "Cerdded er budd Iechyd" gyda chefnogaeth ariannol y *British Heart Foundation*, a gobeithiwn y cawn gyllid o Gronfa Cyfleoedd Newydd menter "Llecynnau Gwyrdd" ("*Green Spaces"*) i greu mwy o gyfleoedd ar gyfer mynediad i gefn gwlad, yn arbennig ar gyfer grwpiau difreintiedig.

12. Bydd y cynigion yn y Mesur Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn creu hawliau mynediad i gefn gwlad agored - sy'n amodol ar gyfyngiadau ar gyfer rheolaeth hanfodol yr ardal a diddordebau cadwraeth natur - yn creu rhagor o gyfleoedd ar gyfer mynediad i gefn gwlad. Bydd hynny'n dod â buddiannau i iechyd ac i ystyriaethau economaidd. Bydd y gost o weithredu'r ddeddfwriaeth y flwyddyn nesaf yn £1 miliwn, a bydd y gost yn cwmpasu cwblhau'r gwaith o baratoi mapiau, costau'r broses o ymgynghoriad ac o roi cymhorthdal grant i sefydlu Fforymau Mynediad Lleol, a'r gwaith y bydd rhaid i awdurdodau lleol ei wneud i gynorthwyo i weithredu'r ddeddfwriaeth.

13. Rhagwelwn y bydd llawer o gynlluniau'r bartneriaeth leol a baratoir ar gyfer cefnogaeth Amcan 1 yn cynnwys hyrwyddo'r defnydd o Lwybrau Cyhoeddus Tramwy'r Cyhoedd er budd i iechyd ac i ystyriaethau economaidd. Rhagwelwn y gofynnir i ni godi ein lefelau presennol o gymhorthdal grant i'n partneriaid i gefnogi'r cynlluniau hyn o 2001-03 ymlaen.

<u>Gwell Cyfleoedd ar gyfer Dysgu</u>

14. Yr ydym eisoes yn cefnogi ein partneriaid yn y gwaith a wnânt i hyrwyddo gwell dealltwriaeth am yr amgylchedd naturiol. Fodd bynnag, y flwyddyn nesaf hoffem fuddsoddi £0.1m i ddatblygu ein Safle Gwe er mwyn darparu gwybodaeth a chyfleusterau rhyngweithiol i ysgolion, i ategu'r syniad y mae'r Cynulliad yn ei arddel yngl n â Strategaeth Addysg Amgylcheddol.

15. Mae'r 63 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol sydd yng Nghymru yn adnodd o bwys ar gyfer addysg ac ystyriaethau economaidd. Yr ydym yn argymell cynlluniau pwysig i wella'r dehongliad ar y Gwarchodfeydd y mae'r mwyafrif o ymwelwyr yn ymweld â hwy, ac yn ceisio am gefnogaeth yr UE ar gyfer y rhain ym Meysydd Amcan 1. Mae'r gost ychwanegol am hyn i CCGC y flwyddyn nesaf yn £0.5m.

<u>Economi Well a Chryfach</u>

16. Mae gwaith CCGC wrthi eisoes yn rhoi cyfraniad pwysig i dwf economaidd cynaliadwy, yn uniongyrchgol ac yn anuniongyrchol. Mae 60% o'n cyllid sylfaenol am y flwyddyn nesaf (yn agos i £20m) yn cael ei wario ar grantiau a thaliadau i ffermwyr o dan reolaeth SoDdGA, cynlluniau rheoli Tir Cymen a Thir Gofal, a bydd cyfran sylweddol o'r gwariant ychwanegol y bwriadwn ei wneud y flwyddyn nesaf yn cael ei wario ar gynyddu'r taliadau hyn. Ar wahân i fuddion amgylcheddol y mae'r taliadau hynny'n eu sicrhau, mae'r arian a chwystrellir i mewn yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi cefn gwlad. Yn ogystal, y mae CCGC yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy yn anuniongyrchol drwy weithio gydag awdurdodau lleol a datblygwyr i sicrhau bod y datblygiadau'n cael eu gwneud mewn dulliau cynaliadwy.

17. Y mae dau o Lwybrau Cerdded Cenedlaethol Cymru (sydd i fod yn dri os bydd y Cynulliad yn cymeradwyo ein cynigion ar gyfer Llwybr Glynd r) hwythau'n ffynhonnell o incwm twristiaeth. Gyda chefnogaeth cyllid strwythurol yr UE, hoffem adeiladu ar y cyfleusterau hyn gyda mentrau mynediad cenedlaethol newydd. Mae cynnig i ddechrau ar y gwaith hwn yn cael ei wneud ar gyfer y flwyddyn nesaf.

<u>Rheolaeth Well a Symlach</u>

18. Rhwng 1992-93 a 1998-99, gostyngodd costau gorbenion gweinyddol CCGC am bob aelod o'r staff 21% mewn termau gwirioneddol. Mae gennym fentrau parhaus i ostwng costau, sy'n cynnwys gwneud datblygiad pellach ar ein rhwydwaith fideogynadleddu sydd eisoes yn arbed £120,000 y flwyddyn mewn costau teithio.

19. Fodd bynnag, er mwyn gwella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithioldeb, mae angen i ni fuddsoddi mwy, yn barhaus, ar y monitro ar ôl y taliadau o gymhorthdal grant i'n partneriaid, ar hyfforddi staff ac ar gyfarpar TG. Gwneir bid o £0.75m er mwyn sicrhau'r gwelliannau hyn am y flwyddyn nesaf.

20. Mae ein trefniadau ar gyfer pensiynau yn CCGC bron yn unigryw. Yr ydym mewn sefyllfa "ddigyllid" ac mae’n rhaid inni dalu pensiynau yn llawn allano’n bil cyflogau. O’r herwydd, bob blwyddyn, fel y bydd bil y pensiynau’n codi, mae’n rhaid inni leihau ein rhaglen waith i dalu ein pensiynwyr. Trefniant damweiniol a wnaed pan sefydlwyd CCGC yw hyn. Dylid cywiro’r anomaledd gwanychol hwn unwaith ac am byth. Gwneir bid am £0.94m y flwyddyn nesaf a £0.85m ar ôl hynny i alluogi CCGC i brynu i mewn i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

<u>Crynodeb o’r Anghenion Ychwanegol Awgrymedig</u>

21. Dylid edrych ar y crynodeb a ddangosir yn y tabl isod (rhoir y manylion yn y tabl ar dudalennau 10 ac 11 yn ein Cynllun Corfforaethol) yn erbyn cefndir o’r cynnydd o rhwng 23% a 20% sydd wedi bod yng nghyllid ein chwaer-asiantaethau yn Lloegr a’r Alban, o’i gymharu â chynnydd o 8% yn achos CCGC. Mae ein cynigion yn ymgais i lefelu pethau’n sylweddol, yn ogystal â helpu’r Cynulliad i gyflawni ei rwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth yr UE a’r DG a helpu i wireddu potensial cefnogaeth Amcan 1.

CRYNODEB O’R CYNIGION AM WARIANT YCHWANEGOL

£ miliwn

| | 2001-02 | 2002-03 | 2003-04 |
|---|---|---|---|
| Ansawdd Bywyd Gwell | 4.56 | 8.91 | 11.61 |
| Iechyd a Lles Gwell | 1.00 | 1.15 | 0.75 |
| Cyfleoedd Gwell ar gyfer Dysgu | 0.60 | 0.60 | 0.60 |
| Economi Well a Chryfach | 0.40 | 0.90 | 1.40 |
| Rheolaeth Well a Symlach | 1.69 | 1.60 | 1.60 |
| Cyfanswm | 8.25 | 13.16 | 15.96 |
| Baslinell Gyfredol | 35.50 | 34.70 | 34.70 |
| Gwarchodfa Gwastadeddau Gwent | 0.2 | 0.2 | 0.5 |
| % o gynnydd | 23% | 38% | 46% |